Y TYST

Sefydlwyd 1857 – Cyfrol 153 – Rhif 20 – Gorffennaf 1, 2010 – Pris – 40c

Carol Evans

Undeb 2010: Croeso Sir Gâr

Wythnos nesa' (8-10 Gorffennaf) bydd Undeb yr Annibynwyr yn ymweld â Chaerfyrddin am y seithfed tro ers cynnal yr Undeb cyntaf erioed yno yn 1872. Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin sy'n gwahodd, a bydd y croeso yn un llawen a chofiadwy, meddai Carol Evans, Cadeirydd y Cyfundeb.

Mae popeth yn barod i groesawu Annibynwyr o Gymru ac o gapeli'r Undeb ar draws Glawdd Offa i'r cyfarfodydd. Bydd y Gynhadledd ei hun yn theatr hyfryd a chysurus Canolfan yr Halliwell, Coleg Prifysgol y Drindod ar gyrion y dref. Darperir bwyd i bobl sydd wedi archebu ymlaen llaw o dan yr un to, ac mae ffreutur newydd gyferbyn â'r theatr ar gyfer y sawl sydd am brynu ei fwyd ei hun. Bydd stiwardiaid siriol yn barod i'ch cyfeirio i le parcio cyfleus, ac eraill i dywys lletywyr i'w hystafelloedd.

Ar ôl y Te Croeso, cewch gyfle i brofi harddwch gwyrdd gorllewin Sir Gâr trwy deithio i'r Oedfa Bregethu yn nhre fach Hendygwyn-ar-dâf. Bydd y Cwrdd Chwiorydd tua tair milltir tua allan o'r dre yn Smyrna, Llangain, ac Oedfa'r Llywydd tair milltir i'r cyfeiriad arall, ym mhentre a chapel Peniel.

Y Cwmni a'r Cyffro

Drama Gerdd newydd gan Nan Lewis a Meinir Lloyd yw'r cyflwyniad croeso. Bydd pobl ifanc y Cyfundeb yn llwyfannu 'Ynys yr Addewid' yn Theatr y Lyric a nos Wener, ac eto nos Sadwrn. Mae dr 1,000 o docynnau wedi eu gwerthu'n barod.

I'r sawl sy'n dymuno aros ymlaen y ardal dros y Sul, mae croeso cynnes i c a chyflwyniad arbennig 'Taith i weld y Iesu' gan blant iau y Cyfundeb yn y Ly ar bnawn Sul.

Edrychwn ymlaen yn eiddgar, felly, bedwar diwrnod llawn a llawen yng Nghyfundeb Gorllewin Caerfyrddin. Cofiwch – mae'r Undeb i chi; dewch a dridiau, dewch am ddiwrnod, neu galw am awr neu ddwy i rannu yn y cwmni cyffro.

LLAWENYDD YN LLUNDAIN

Yr oedd cynulledifa niferus wedi dod i Gapel y Boro' yn Llundain ar ddydd Sadwrn, 12 Mehefin, nid am fod Lloegr yn chwarae ei gêm gyntaf yng nghystadleuaeth Cwpan y Byd, na chwaith am fod yr eglwys yn cael ei datgorffori. I'r gwrthwyneb; yr oedd rhywbeth newydd a gwahanol yn digwydd yno.

Eiri Jones

Yr oedd yr eglwys yn neilltuo Miss Eiri Jones yn Arweinydd, a hynny fel rhan o gynllun 'Codi Arweinyddion' Rhaglen Datblygu Annibynwyr Cymru. Capel y Boro' yw'r drydedd eglwys i wneud hyn, a'r ail fel rhan o'r Rhaglen. Capel y Nant, Clydach, oedd y cyntaf, cyn dyddiau'r Rhaglen, ac Eglwys Llwyncelyn oedd yr ail. Yn awr y mae Capel y Boro' wedi ei ychwanegu at y rhestr o'r cynulleidfaoedd hynny sydd wedi bod yn barod i edrych y tu hwnt i'n patrwm traddodiadol o weinidogaeth, a mentro i fabwysiadu patrwm amgen.

Prif Swyddog Nyrsio yn Bedford yw Eiri, ac mae ei chysylltiad â Chapel y Boro' yn ymestyn yn ôl dros chwarter canrif. Lle gynt y bu ei thad, y Parchg Arfon Jones, gweinidog gyda'r Bedyddwyr, yn arwain yr addoliad yno yn achlysurol, y mae hi yn awr wedi dod i drefniant gyda'r eglwys, a phenllanw y neilltuwyd Eiri, gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol, y Parchg Ddr Geraint Tudur. Cyflwynwyd cyfarchion gan Tegid Jones a Rowenna Hughes o Gapel y Boro', a'r Parchg Eirian Rees o Efailisaf. Darllenwyd o'r Ysgrythur gan Eirlys Pritchard Jones, cyn-athrawes Eiri, ac offrymwyd gweddi gan y Parchg Gwilym Hughes, Abergele, sy'n ewythr iddi. Nid ef oedd yr unig un o'r teulu i gymryd rhan, oherwydd cyflwynwyd yr emynau gan Llinos a Marc John, Eglwys y Tabernacl, Caerdydd, Neil Evans o Gapel y Boro', a Deiniol Jones, ei brawd. Y Parchg Denzil John, gweinidog eglwys y Tabernbacl, Caerdydd, a offrymodd y weddi i erfyn am fendith Duw ar y neilltuo.

Cafwy dwy eitem gerddorol fel rhan o'r gwasanaeth; unawd ar y ffliwt gan Debra Williams, eto o Gapel y Boro', a thri emyn gan gôr o fechgyn ifanc, sef *Esquire*. Wedi'r emyn olaf cafwyd gair, a chyhoeddwyd y fendith, gan y Gwir Anrhydeddus Simon Hughes, AS, Dirprwy Arweinydd plaid y Democratiaid Rhyddfrydol. Yr oedd newydd fod yn Nant Gwrtheyrn ar gwrs yn dysgu Cymraeg ac wedi mwynhau'r profiad yn fawr iawn!

Wedi'r gwasanaeth, cafwyd lluniaeth o'r adeilad ar gyfer y gwasanaeth neilltuo.

Mae hon yn bennod newydd a chynhyrfus yn hanes Capel y Boro'. D flynedd yn ôl yr oedd rhai o'r aelodau credu fod yr achos yn agos at ddirwyn ben, ond trwy ymdrech ddygn nifer ohonynt, llwyddwyd i gael awel ffres y hwyliau a brwdfrydedd newydd yn eu cynlluniau, a hynny sy'n awr wedi arw at yr ymdeimlad yno o ail-gydio ac ail-ddechrau, a mentro i gyfeiriad newydd

Ni allwn ond dymuno'n dda i eglwy Boro' ac i Eiri Jones. Boed iddynt brof bendith Duw ar eu hymdrechion, a the dylanwadau'r Ysbryd Glân yn rymus y plith.

tering

CYMRY LLUNDAIN 1 GORFFENNAF 2010

BWRLWM YN Y BOROUGH

What on earth was happening? There was a chapel, a nurse and a large crowd.

First, the chapel was Borough Welsh Chapel located on the Southwark Bridge Road. The church community meeting at the chapel have recently made great improvements to the condition of the buildings. As a result, the church now has a very valuable hall and it is being used by a number of social groups which include Eschoir – a Welsh male voice choir.

Over the years the church has been prepared to adapt and is now geared to welcome Welsh people and their friends wherever they fall within the linguistic spectrum. The welcome to our services is always warm and is always followed by an excellent lunch. Contact can be made through our web site: www.welshchapel.com which, it is interesting to note, has proved to be very fruitful during the past months.

The church was founded in 1806 and a few years ago it was facing closure. However, it is now prepared to face the future with hope.

The nurse involved was Miss Eiri Jones who has responded to an invitation to become the leader of the church. Eiri was trained as a nurse at nearby Guy's Hospital and, until recently, was the Chief Nursing Officer at Bridgend and is now acting in a similar capacity in Bedford.

The crowd that had gathered together came from all over London with a large contingent from Cardiff and Aberdare, and they all shared in the atmosphere of excitement and hope to induct Eiri Jones to be leader of the church at Borough.

Roedd mam a thad Eiri wedi bod yn ymwelwyr cyson ag eglwys y Borough dros lawer o flynyddoedd gan helpu gyda'r oedfaon ar y Sul. Y mae Eiri wedi dilyn yn esgidiau ei rhieni a hithau nawr yn barod i ychwanegu at yr hyn a arferau ei wneud i helpu'r gynulleidfa i gynnal cartref ysbrydol Gymreig ar ochr dde'r afon yn Southwark.

Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig i neilltuo Eiri i fod yn arweinydd ar yr eglwys ar ddydd Sadwrn, 12 Mehefin 2010, ac roedd y capel yn llawn.

O ganlyniad i salwch y Parchg. Peter Dewi Richards, llywyddwyd yr oedfa ynghyd a'r ddefod o neilltuo Eiri Jones i waith arweinydd yn yr eglwys gan y Parchg. Ddr. Geraint Tudur, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Annibynwyr Cymraeg. Nododd Dr. Tudur mai Eiri yw'r trydydd i gael eu neilltuo a'u cydnabod fel arweinwyr o fewn eglwysi'r Annibynwyr. Aeth ymlaen i ddweud bod swydd arweinydd yn wahanol i'r hyn sy'n arferol wedi cael ei gysylltu a swydd gweinidog. Nid un i wneud popeth ar ran y gynulleidfa yw'r arweinydd ond, yn hytrach, i arwain y gynulleidfa i gyflawni ei gweinidogaeth.

Yn ystod ei anerchiad wrth ddwyn cyfarchion i'r eglwys, dywedodd y Parchg. Eirian Rees, Efail Isaf, bod Eiri Jones yn hen gyfarwydd ag eglwys y Borough, bod ganddi brofiad helaeth i greu tim allan o gannoedd o bobl proffesiynol a bod ganddi oes o brofiad ymarferol o fywyd eglwys. Felly, o ganlyniad i hyn, a'i hymrwymiad personol ar hyd y blynyddoedd, doedd neb yn fwy cymwys i helpu eglwys i gyflawni amcanion yr efengyl yn llawen ac yn egniol.

Cymerodd nifer o bobl ran yn y gwasanaeth neilltuo. Cyflwynwyd cyfarchion gan Rowenna Hughes a Tegid Jones ar ran yr eglwys. Darllenwyd o'r Ysgrythur gan Eirlys Pritchard Jones, cyn athrawes Eiri, ac offrymwyd gweddi gan Y Parchg Gwilym Hughes Abergele, sy'n ewythr i Eiri. Nid ef oedd yr unig un o'r teulu i gymryd rhan, oherwydd cyflwynwyd yr emynau gan Llinos a Marc John, Eglwys y Tabernacl Caedydd. Neil Evans y Borough a Deiniol Jones, brawd Eiri. Y Parchg Denzil John, gweinidog eglwys y Tabernacle, Caerdydd a offymodd y weddi i erfyn am fendith Duw ar y neilltuo. Cafwyd cyfraniadau cerddorol gwerthfawr gan John Edward Jones wrth yr organ, unawd ar y ffliwt gan Debra Williams, a nifer o ganeuon pwrpasol gan gor meibion Eschoir o dan arweiniad Dr Haydon James.

Roedd hi'n achos llawenydd derbyn cyfarchion cynnes, a hynny cyn iddo arwain mewn gweddi, gan aelod seneddol Southwark, Simon Hughes. Hefyd yn bresennol roedd cyn faer yr ardal, y Cyngh. Jeff Hook ynghyd ag Archddiacon yr Esgobaeth, sef, yr Hybarch Michael Ipgrave.

Yn dilyn yr oedfa, parhaodd y dathlu gyda gwledd o'r safon uchaf yn y festri a hyn wedi ei baratoi gan un o'r aelodau, sef, Howel Jones a'i dim. I goroni'r cyfan, gwnaeth y Parchg. Towyn Jones, Caerfyrddin, gynnig llwnc destun i ddyfodol yr eglwys a'i llwyddiant.

Tegid Jones.